OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1581

# Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

**Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013**

**11.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2—

(a) yn Rhan 1, ym mharagraff 6, yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd";

(b) yn Rhan 2—

(i) ym mharagraff 2, yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd";

(ii) ym mharagraff 4, yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd".

(**1**) O.S. 2013/479 (Cy. 55), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.